

**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADDYSG AC IEUENCTID**  
**31 IONAWR 2019**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg ac Ieuencid Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora Delyn, Neuadd y Sir, yr Wyddgrug, Sir y Fflint, ddydd Iau, 31 Ionawr 2019.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd David Healey (Cadeirydd)**

Y Cynghorwyr: Paul Cunningham, Andy Dunbobbin, Patrick Heesom, Dave Hughes, Kevin Hughes, Tudor Jones, Dave Mackie, Ian Smith, Martin White a David Williams

**AELODAU CYFETHOLEDIG:** David Hÿtch, Rita Price a Rebecca Stark

**DIRPRWYON:** Y Cynghorydd: Gladys Healey (ar ran Geoff Collett)

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cyng. Sian Braun

**CYFRANWYR:** Y Cyng. Aaron Shotton, Arweinydd ac Aelod Cabinet Cyllid; y Cyng. Ian Roberts, Aelod Cabinet Addysg; Prif Swyddog (Addysg ac Ieuencid); a Rheolwr Cyllid (Pobl ac Adnoddau)

Uwch Reolwr Gwella Ysgolion – ar gyfer eitem 38

**HEFYD YN BRESENNOL:** Hwylusydd Trosolwg a Chraffu Addysg ac Ieuencid a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**34. SYLWADAU AGORIADOL**

Roedd disgyblion a chynrychiolwyr o Ysgol Uwchradd Argoed yn bresennol i arsylwi'r cyfarfod ac ar ran y Pwyllgor croesawodd y Cadeirydd hwy i'r cyfarfod.

**35. DATGAN CYSYLLTIAD**

Datganodd Rebecca Stark gysylltiad personol â Diweddariad am Gyllideb Cronfa'r Cyngor 2019/20 oherwydd bod ei phlant yn derbyn addysg uwchradd.

**36. DIWEDDARIAD AM GYLLIDEB CRONFA'R CYNGOR 2019/20**

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuencid) adroddiad ar sefyllfa gyllido ddiweddaraf y Gwasanaethau Addysg wrth i ni ddynesu at gamau olaf y broses o bennu'r gyllideb ar gyfer 2019/20. Er bod rhywfaint o welliant o gymharu â'r rhagolwg gwreiddiol, mae Setliad Terfynol y Llywodraeth Leol yn dal yn annigonol i fodloni gofynion cyllido'r Cyngor.

Eglurodd y Rheolwr Cyllid fod nifer o wasanaethau addysg yn dibynnu ar gyllid grant, sy'n mynd yn llai pob blwyddyn. Mae adolygiad cynhwysfawr o gyllidebau wedi dangos nad oes lle i wneud rhagor o arbedion na'r rheiny sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad heb beryglu cadernid gwasanaethau'r Cyngor a safonau ysgolion. Gyda chyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru tuag at gost

gweithredu'r dyfarniad cyflog cenedlaethol ar gyfer 2019/20, mae'r Cyngor wedi gwneud darpariaeth i godi'r sylfaen gyllido i gwrdd â chynnydd o 1%, gyda'r ysgolion yn amsugno'r balans sy'n weddill. Rhagwelir pwysau pellach o ran costau i ysgolion ym mis Medi 2019 pan fydd dyfarniad cyflog arall yn ddyledus. Yn ychwanegol, nid oes gwybodaeth ar hyn o bryd o ran a fydd Llywodraeth Cymru yn derbyn cyllid ategol i gefnogi'r cynnydd ym mhensiynau athrawon, a amcangyfrifir i fod yn risg pellach o dros £2 filiwn.

Yn ystod proses y gyllideb, mae'r risg o ran yr effaith ar wasanaethau a safonau wedi'i chodi gyda Gweinidogion. Mae ymgysylltu helaeth wedi'i wneud gydag ysgolion a phartneriaid ar gyfrifoldebau a rennir ac mae'r ddeialog agored hon wedi'i chroesawu.

Soniodd y Cyng. Shotton am drafodaeth yng nghyfarfod y Cyngor Sir yn ddiweddarach yr wythnos honno lle amlygwyd effaith y pwysau ariannol hwn ar wasanaethau. Er y croesawir y dyfarniadau cyflog uwch i athrawon a staff ysgol, ni chydabyddir y pwysau hwn yn llawn gan Lywodraeth Cymru na Llywodraeth y DU. I gynorthwyo ysgolion gyda'r pwysau ariannol canol blwyddyn hyn, argymhellir bod y Cyngor Sir yn codi cyllideb ddirprwyedig ysgolion 2.47%. O ran cynyddu pensiynau athrawon, awgrymodd y Cyng. Shotton y dylai Aelodau ystyried cysylltu â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) i dderbyn sicrwydd drwy Drysorlys y DU bod cyllid ar ddod.

Croesawodd y Cyng. Heesom y diweddariad hwn yn barod ar gyfer y drafodaeth yng nghyfarfod y Cyngor Sir ar 19 Chwefror. Dywedodd pa mor bwysig yw cyllid i gefnogi darpariaethau chweched dosbarth yn y sir. Dywedodd y Prif Swyddog a'r Rheolwr Cyllid nad oes gwybodaeth wedi'i derbyn gan Lywodraeth Cymru eto o ran cyllid grant ar gyfer addysg ôl-16 yn 2019/20 a dywedodd y bydd gwasanaeth rhanbarthol GwE yn dyrannu'r cyllid Grant Gwella Addysg. Wrth fynd i gyfarfodydd cenedlaethol a rhanbarthol mae swyddogion yn parhau i bwysleisio pwysigrwydd derbyn gwybodaeth ariannol yn amserol er mwyn galluogi'r Cyngor ac ysgolion i gynllunio'n effeithiol.

Dywedodd David Hÿtch nad yw'r dyfarniad cyflog cenedlaethol sydd wedi'i osod gan Lywodraeth y DU yn helpu i recriwtio a chadw staff ysgol, sy'n broblem ar draws y DU. Roedd yn croesawu'r cynnydd ond mynegodd bryderon ynghylch gallu ysgolion i amsugno'r costau ychwanegol, yn enwedig oherwydd nifer yr ysgolion uwchradd sydd eisoes mewn sefyllfa o ddiffyg ariannol. Roedd y swyddogion yn derbyn y pwynt hwn, gan ddweud y byddai'n rhaid i'r Cyngor barhau i weithio gydag ysgolion i dargedu'r gefnogaeth yn briodol.

Dywedodd y Cyng. Roberts bod difrifoldeb y sefyllfa yn dangos pa mor bwysig yw hi i'r Cyngor gynnal lefelau digonol o gyllid wrth gefn. Siaradodd am y cyfathrebu sy'n digwydd gydag ASau lleol ynglŷn â'r angen i'r rheiny sy'n gosod y dyfarniad cyflog cenedlaethol ddarparu'r cyllid angenrheidiol i'w weithredu.

Pan ofynnodd y Cyng. Dunbobbin am gyllid grant i gefnogi plant y rheiny sy'n gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog, eglurwyd ein bod yn dal yn aros am wybodaeth ynglŷn â dyraniadau grwpiau penodol (fel y nodir yn yr atodiad i'r adroddiad). Tra bod grantiau ychwanegol ar gael yn ddiweddarach yn y broses, mae hynny yn achosi trafferthion wrth gynllunio.

Wrth gyfeirio at bwysau eraill a wynebir gan athrawon, dywedodd y Cyng. Kevin Hughes y byddai defnyddio cronfeydd wrth gefn i gydbwysu'r gyllideb ar gyfer 2019/20 yn gwneud pethau'n anoddach fyth ar gyfer y flwyddyn nesaf. Awgrymodd fod y Pwyllgor yn ysgrifennu llythyr ynglŷn â chael ateb ariannol i'r cynnydd cenedlaethol. Cafodd hynny ei gydnabod gan y Prif Swyddog ac eglurodd fod llythyr eisoes wedi'i anfon ac y bydd copi yn cael ei rannu gyda'r Pwyllgor ynghyd â'r ymateb cadarnhaol gan David Hanson AS.

Atgoffodd y Cyng. Shotton yr Aelodau fod y cais am gyllid tecach yn rhan o ymgyrch #CefnogiGalw y Cyng.

Roedd Rebecca Stark yn pryderu ynghylch effaith gweithredu'r ddeddfwriaeth newydd ar Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r galw cynyddol yn sgil atgyfeiriadau cymhleth am leoliadau y tu allan i'r sir. Dywedodd y Prif Swyddog fod y goblygiadau cost sylweddol yn sgil y newidiadau i'r ddeddfwriaeth wedi'i nodi fel risg allweddol gan nad oes modd asesu'r effaith ariannol ar hyn o bryd; bydd sgyrsiau yn parhau gyda Llywodraeth Cymru o ran yr angen am fuddsoddiad ariannol. Fel risg sylweddol a pharhaus, mae'r gwariant ar leoliadau y tu allan i'r sir yn destun gwaith monitro manwl a herio, ac mae cyfleoedd yn cael eu harchwilio i ymestyn y ddarpariaeth leol. Bydd adroddiadau ar y ddau fater yn cael eu cyflwyno yn ystod cyfarfod Trosolwg a Chraffu ar y cyd ym mis Mehefin.

Siaradodd y Cyng. White am yr angen i Lywodraeth Cymru ymyrryd i ddarparu'r cyllid angenrheidiol i alluogi ysgolion wella safonau.

Yn dilyn sylwadau'r Cyng. Jones ynglŷn â'r geiriad a ddefnyddiwyd yn y trydydd argymhelliad, cynigiodd y dylid ei ddiwygio i adlewyrchu'r drafodaeth yn fwy cywir. Yn ystod y drafodaeth, cytunodd y Pwyllgor ar ddiwygiadau pellach.

### **PENDERFYNWYD:**

- (a) Bod y Pwyllgor yn nodi'r amcangyfrif diweddaraf o'r gyllideb ar gyfer y Cyngor fel sail ar gyfer gosod cyllideb gytbwys a chyfreithlon ar gyfer 2019/20;
- (b) Bod y Pwyllgor yn nodi'r cynnydd ariannol a gynigir ar gyfer ysgolion yn 2019/20;
- (c) Bod y Pwyllgor yn nodi y bydd y Cyngor, eleni, yn cyllido 1% o'r dyfarniad cyflog i athrawon, a bod disgwyl i'r ysgolion, yn anffodus, amsugno'r balans sy'n weddill;
- (d) Bod y Pwyllgor yn nodi nad yw'r cyllid arfaethedig ar gyfer 2019/20 yn cynnwys unrhyw lwfans ar gyfer y cynnydd yng nghostau pensiwn athrawon na'r dyfarniad cyflog ym mis Medi 2019; a
- (e) Bod y Pwyllgor yn gwrthod y broses genedlaethol o ddyfarnu cyflogau heb dderbyn cyllid digonol gan y llywodraethau.

### **37. CYNLLUN STRATEGOL CYMRAEG MEWN ADDYSG**

Cyflwynodd y Prif Swyddog adroddiad ar gynnydd y Cyngor o ran y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg i gyrraedd y targedau a chyflawni'r amcanion a osodwyd gan Lywodraeth Cymru i hyrwyddo addysg drwy gyfrwng y Gymraeg, cynyddu nifer y disgyblion sy'n derbyn addysg drwy gyfrwng y Gymraeg ac i wella safonau cyrhaeddiad disgyblion Cymraeg iaith gyntaf ac ail iaith.

Mae fforwm amlasiantaethol yn gyfrifol am fonitro a gweithredu'r cynllun hwn, ac mae Sian Hilton yn darparu capasiti ychwanegol dros dro yn y Cyngor. Mae'r fforwm yn adolygu cynnydd tri is-grŵp sy'n canolbwyntio ar safonau, y ddarpariaeth a'r gweithlu. Fel rhan o'r adroddiad, tynnwyd sylw at lwyddiant y Cyngor wrth ddenu buddsoddiad cyfalaf gan Lywodraeth Cymru ar gyfradd ymyrraeth o 100% i gynyddu capasiti Ysgol Glanrafon a darparu gwasanaeth blynyddoedd cynnar cofleidiol. Amlygwyd nifer o lwyddiannau allweddol wrth gyrraedd targedau Llywodraethu Cymru ar gyfer 2018-19.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am yr adroddiad a chroesawodd y cynnydd hyd yma.

Yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd y Fforwm, siaradodd y Cyng. Roberts am ymrwymiad y Cyngor i hyrwyddo addysg plant mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg ac i ddatblygu dwyieithrwydd mewn ysgolion Saesneg. Cyfeiriodd at effaith gadarnhaol yr Urdd o ran annog pobl ifanc i gystadlu drwy gyfrwng y Gymraeg a phwysleisiodd bwysigrwydd datblygu'r iaith y tu allan i'r ysgol/gweithle. Dywedodd y byddai'n rhaid cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg mewn ardaloedd fel Sir y Fflint er mwyn cyrraedd targed uchelgeisiol Llywodraeth Cymru o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Aeth ymlaen i ganmol Ysgol Gwenffrwd yn Nhreffynnon am ganlyniadau ei harolwg Estyn diweddar.

Yn dilyn pryderon Rebecca Stark ynghylch y seilwaith ffordd o gwmpas Ysgol Glanrafon, cynghorodd y Prif Swyddog fod swyddogion yn ymwybodol o'r problemau ac y bydd asesiad o effaith traffig yn ystyried rheoli llif y traffig a diogelwch disgyblion.

Mewn ymateb i sylwadau'r Cyng. Smith, dywedodd y Cyng. Roberts a'r Prif Swyddog fod sylwadau wedi'u gwneud ar yr angen i Lywodraeth Cymru ddarparu cyllid ychwanegol ar gyfer twf a datblygiad ysgolion Cymraeg llai wrth iddynt gael eu sefydlu.

Tra bod David Hÿtch yn croesawu canlyniadau cadarnhaol dysgwyr ail iaith mewn ysgolion Saesneg, roedd yn pryderu ynghylch effaith y newidiadau pellach yn y cwricwlwm ar ysgolion uwchradd Saesneg.

Roedd Rebecca Stark hefyd yn teimlo y gall y lleihad mewn dewisiadau Cymraeg yn yr ysgol uwchradd arwain at ddisgyblion yn dewis peidio ag astudio iaith arall.

Galwodd y Cyng. Gladys Healey ar ddiwydiannau i wneud mwy i gynnwys y Gymraeg yn y gweithle.

Dyfynnodd y Cyng. Mackie o adroddiad a oedd yn amlygu'r anawsterau a brofir gan ysgolion uwchradd wrth recriwtio athrawon sy'n medru'r Gymraeg.

Roedd y Cyng. Jones yn croesawu'r cynnydd wrth weithredu'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg a soniodd am dwf y Gymraeg mewn ardaloedd trefol. Diolchodd i'r Aelodau am gymryd rhan yn yr arolwg diweddar a gynhaliwyd ar draws y Cyngor, a oedd yn dangos cynnydd o ran y Gymraeg.

Roedd y Prif Swyddog yn cydnabod pryderon megis effaith llai o ddewisiadau ar gyfer disgyblion a'r buddsoddiad sydd ei angen i hyfforddi athrawon. Mae'r is-grwpiau yn nodi ffactorau allweddol fel y rhain ac yn adrodd yn ôl i'r fforwm er mwyn cyfrannu at y cynllun gweithredu e.e. gweithio gyda Choleg Cambria i greu mwy o gyfleoedd i bobl ifanc ddatblygu sgiliau Cymraeg.

Yn dilyn y drafodaeth, awgrymodd y Cyng. Roberts y dylai'r Pwyllgor ysgrifennu at y Gweinidog i fynegi'r pryderon a godwyd. Cytunwyd ar gyfres ddiwygiedig o argymhellion i adlewyrchu'r drafodaeth.

### **PENDERFYNWYD:**

- (a) Bod y Pwyllgor yn canmol y cynnydd sydd wedi'i wneud gan y Cyngor yn erbyn targedau'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg;
- (b) Nodi'r gwaith partneriaeth amlasiantaeth effeithiol o fewn Fforwm Strategol y Gymraeg mewn Addysg, sydd wedi creu ac yn monitro'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg; a
- (c) Bod y Cadeirydd, ar ran y Pwyllgor, yn ysgrifennu at Kirsty Williams AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, yn amlinellu'r pryderon canlynol:-
  - Yr angen i sicrhau bod digon o athrawon sy'n medru'r Gymraeg ymhob pwnc
  - Y costau refeniw sy'n gysylltiedig â sefydlu darpariaeth cyfrwng Cymraeg newydd
  - Pryderon ynghylch y dewisiadau cyfyngedig fydd ar gael i ddisgyblion pe bai TGAU Iaith Gymraeg yn orfodol
  - Os yw Llywodraeth Cymru yn mynd i gyrraedd ei tharged uchelgeisiol o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, yna byddai hynny ond yn bosibl drwy gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg mewn ardaloedd fel Sir y Fflint

### **38. DYSGU O'R GRŴP MONITRO PERFFORMIAD YSGOL**

Cyflwynodd y Prif Swyddog adroddiad i ddiweddarau'r Pwyllgor am waith y Grŵp Monitro Perfformiad Ysgolion sy'n fecanwaith ar gyfer cefnogi gwelliant mewn ysgolion.

Mae dull y grŵp hwn yn cynnwys darparu proses adeiladol a chadarn i nodi – gydag ysgolion - unrhyw faes sydd angen cefnogaeth i'w wella. Mae nifer yr ysgolion sy'n rhan o'r broses wedi lleihau'n sylweddol. Mae rhestr o themâu cyffredin wedi amlygu meysydd allweddol y gall gwasanaeth rhanbarthol GwE

ymateb iddynt a thargeddu cefnogaeth yn briodol; dau ohonynt yw ansawdd arweinyddiaeth ganol ar lefel uwchradd a thracio perfformiad disgyblion.

Bu i'r Cadeirydd longyfarch yr Uwch-Reolwr Gwella Ysgolion am ei phenodiad a chanmol y cynnydd sydd wedi'i wneud.

Mewn ymateb i sylwadau'r Cyng. Heesom ar gyfansoddiad y Grŵp Monitro Perfformiad Ysgol, eglurwyd bod yr aelodaeth wedi bod drwy wahoddiad agored. Croesawir Aelodau sy'n mynegi diddordeb mewn ymuno â'r grŵp, gan gynnwys y Cyng. Heesom sy'n dymuno cynrychioli ei ardal.

Er y cydnabyddir pwysigrwydd gwella ysgolion, dywedodd David Hÿtch y dylid rhoi mwy o bwyslais ar gefnogi yn hytrach na herio, oherwydd y pwysau amrywiol sydd ar ysgolion. Siaradodd y Prif Swyddog am ei chyfrifoldeb statudol dros safonau addysg er lles dysgwyr. Dywedodd fod sawl rheswm pam bod ysgolion yn mynd i drafferthion a bod her a chefnogaeth yn angenrheidiol i ddeall y rhesymau a gweithio'n effeithiol gyda GwE i dargedu cefnogaeth. Mae'r adborth gan ysgolion sy'n mynd drwy'r broses wedi bod yn gadarnhaol ac fe gynhelir cyfarfodydd mewn modd proffesiynol sy'n cynnwys Ymgynghorwyr Gwella Ysgol.

Ar ôl bod yn rhan o'r Grŵp Monitro Perfformiad Ysgol, roedd Rebecca Stark yn teimlo bod y profiad wedi bod yn un cadarnhaol o ran nodi'r gefnogaeth sydd ei hangen.

#### **PENDERFYNWYD:**

- (a) Nodi gwaith y Grŵp Monitro Perfformiad Ysgol; a
- (b) Bod y Pwyllgor yn cefnogi'r Grŵp Monitro Perfformiad Ysgol wrth iddo barhau i weithio yn yr un modd gyda'r ysgolion sydd wedi'u targedu.

### **39. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL**

Wrth gyflwyno'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol dywedodd yr Hwylusydd, yn dilyn y drafodaeth a gafwyd yn gynharach, y bydd adroddiad ar leoliadau y tu allan i'r sir yn cael ei gyflwyno i gyfarfod ar y cyd gyda'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd ar 7 Mehefin 2019.

Rhodddwyd gwybod i'r Aelodau am weithdai Atgyweirio a Chynnal a Chadw Ysgolion (12 Ebrill am 2pm) a Darpariaeth Addysg Ôl-16 ac Ymgynghoriad Ynghylch Cludiant Ôl-16 (11 Chwefror am 2pm). O ran yr olaf, gofynnodd y Cyng. Williams am sicrhau bod gwybodaeth ar gael am y cyrsiau, fel y gofynnwyd eisoes.

#### **PENDERFYNWYD:**

- (a) Cymeradwyo'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol, fel y'i diwygiwyd; a
- (b) Awdurdodi'r Hwylusydd, wrth ymgynghori gyda Chadeirydd y Pwyllgor, i amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen.

40. **AELODAU O'R CYHOEDD A'R WASG YN BRESENNOL**

Roedd un aelod o'r wasg a 15 aelod o'r cyhoedd yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 2pm a daeth i ben am 4.10pm)

.....  
**Y Cadeirydd**